***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 476

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2008

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2008, a deuant i rym ar 27 Chwefror 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau yng Nghymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2008.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.